| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 5 Chwefror 2003** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Rheoliadau Drafft - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003 *a* Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at anghenion personol) (Cymru) 2003** |

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw ceisio barn y Pwyllgor ar gynigion ar gyfer gwneud Rheoliadau Drafft - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003 *a* Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at anghenion personol) (Cymru) 2003.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae'r diwygiadau yn cynnwys materion yn ymwneud â'r gofyniad ar awdurdodau lleol i godi tâl ar breswylwyr am lety gofal preswyl, boed wedi ei ddarparu yn uniongyrchol neu wedi ei drefnu â chartref annibynnol.

3. O dan adrannau 22 a 26 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, mae gofyn i awdurdodau lleol godi tâl gan breswylwyr fel cyfraniad priodol at gostau eu llety preswyl. Mae adrannau 22(5) a 26(3) o'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i'r cyngor ddefnyddio rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth asesu gallu preswylwyr i dalu. Rhaid defnyddio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003 sy'n cael eu diwygio bob blwyddyn er mwyn rhoi'r cynnydd yn y terfynau cyfalaf ar waith, a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at anghenion personol) (Cymru) 2003 sy'n cael eu diddymu bob blwyddyn pan fydd rheoliadau newydd yn cael eu gwneud sy'n cyflwyno'r swm wythnosol diwygiedig. (Mae'r pwerau y gall Gweinidogion eu harfer wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol).

4. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer:

- cynyddu'r terfynau cyfalaf a ddefnyddir ar gyfer prawf moddion o £11,750 (isaf) a £19,000 (uchaf) i £12,250 (isaf) a £20,000 (uchaf); a
- chynyddu'r Lwfans Costau Personol o £16.80 i £17.80.

5. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y terfynau cyfalaf yn cynrychioli cynnydd o tua 5% - ddwywaith y cynnydd arfaethedig o 2.5% yn Lloegr. Mae'r cynnydd yn y Lwfans Costau Personol yn fwy na'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gyfraddau budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Lwfans yn

Lloegr, ac yn golygu y bydd y swm a dderbynnir gan unigolion at ddefnydd personol yn cynyddu tua 1½ gwaith ar gyfer enillion cyfartalog. Yn y ddau achos, byddwn wedi torri'r cysylltiad gyda'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr a DWP o ran eu trefniadau budd-daliadau am y tro cyntaf, ac wedi dechrau pennu ein llwybr ein hunain.

**Yr Amserlen**

6. Mae'r rheoliadau wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod Llefarwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Pleidiau ar 14 Ionawr. Bwriedir cyflwyno adroddiad drafft y Pwyllgor Pwnc i'r Gweinidog erbyn 19 Chwefror, a chaiff y mater ei ystyried yn y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth, ac yna yn y Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth. Disgwylir i'r Rheoliadau gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mawrth. Os nad oes modd glynnu at yr amserlen, mae'n annhebygol y caiff y rheoliadau hyn eu gwneud mewn pryd i'w rhoi ar waith ar y dyddiad arfaethedig, sef 7 Ebrill.

**Y Cefndir**

<u>Terfynau Cyfalaf</u>

7. O dan Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992, ni all cynghorau wneud cyfraniad ariannol at gostau gofal preswylwyr sydd ag asedau, gan gynnwys gwerth eu cartref, sy'n uwch na therfyn cyfalaf o £19,000. Rhwng y terfyn cyfalaf uchaf a'r terfyn cyfalaf isaf sef £11,750, mae'n ofynnol i gynghorau gymryd y gall preswylwyr gynhyrchu incwm ar gyfradd tariff o £1 yr wythnos am bob £250 o asedau cyfalaf. Bydd yr incwm tariff hwn wedyn yn cael ei ychwanegu at yr incwm arall y mae'n rhaid i'r awdurdodau ei ystyried wrth asesu i ba raddau y mae gofyn i breswylwyr gyfrannu at gostau eu gofal. O dan y terfyn cyfalaf isaf, ni all cynghorau ofyn i breswylwyr gyfrannu at gostau gofal o'u hadnoddau cyfalaf.

8. Yn 2001 cafodd y terfynau cyfalaf eu hadfer gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r gwerth gwirioneddol ym 1996 ac ymrwymais i'w cadw dan oruchwyliaeth. Yn unol â'm hymrwymiad, o fis Ebrill 2002 ymlaen, cynyddwyd y lefel isaf o £11,500 i £11,750 a'r lefel uchaf o £18,500 i £19,000.

<u>Lwfans Costau Personol</u>

9. Mae preswylwyr mewn cartrefi gofal a gefnogir gan gynghorau yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'u hincwm at ffioedd gofal. Caiff cyfraniadau preswylwyr eu hasesu yn ôl Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. Yn ôl y rheoliadau hyn, caniateir i breswylwyr gadw swm ar gyfer defnydd personol, er enghraifft dillad, anrhegion bach, trin gwallt a deunydd ysgrifennu, ac ni ellir ei wario ar ofal sydd

wedi ei gontractio gan y cyngor. Gelwir y swm yn Lwfans Costau Personol. Mae swm cyfatebol yn bodoli yn rheoliadau Atodiad Incwm, a fydd yn cael ei gynyddu bob blwyddyn. Mae'r lwfans personol hefyd yn ffurfio elfennau penodol o fudd-daliadau Atodiad Incwm. Gan nad yw'r Lwfans Costau Personol yn fudd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y mae wedi bod yn daladwy ar yr un gyfradd a'r elfen honno o'r budd-dal Atodiad Incwm, ac mae'r DWP yn ystyried hyn yn rhesymol. Mae'r DWP yn cyflwyno rheoliadau sy'n cynyddu'r lwfans personol at ddibenion budd-daliadau ar gyfer 2003 o £16.80 i £17.50 sydd yn unol ag enillion cyfartalog.

10. Rhoddir manylion pellach yn y memorandwm esboniadol a'r rheoliadau drafft yn atodiad A a B, sy'n cynnwys goblygiadau ariannol y newidiadau ym mharagraffau 7-8.

**Adolygu'r Lwfans Costau Personol a'r terfynau cyfalaf**

11. Rwyf wedi ymrwymo i archwilio'r dadleuon o blaid cynnydd sylweddol yn y Lwfans Costau Personol a'r terfynau cyfalaf, a'r goblygiadau o ran costau hefyd. O ran terfynau cyfalaf, y nod fyddai ceisio sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwario eu hasedau cyfalaf ar tua'r un gyfradd â phobl mewn ardaloedd eraill yn y DU, gan ganiatáu ar gyfer lefelau cyfalaf tai is yn gyffredinol yma. O ran y tariff (sef y lefel incwm a gymerir i ystyriaeth o'r cyfalaf rhwng y lefelau uwch ac isaf) efallai y byddwn yn dymuno ystyried sut y mae incwm o gyfalaf yn cael ei drin ar gyfer Credyd Pensiwn. Yn ôl gwaith a wnaed yn ystod 2002, daethpwyd i'r casgliad nad oedd data digonol ar gael i ddadansoddi costau ac asesu effaith gwahanol lefelau o newidiadau yn gywir. Daethpwyd o hyd i ffynonellau data amgen, ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

**Materion i'w Hystyried**

Terfynau Cyfalaf

12. Mae'r cynnig ar derfynau cyfalaf yn mynd y tu hwnt i'm hymrwymiad i adolygu terfynau cyfalaf ac i sicrhau eu bod yn parhau yn unol â chwyddiant. Byddai rhoi'r cynnig ar waith yn dal i fod yn fforddadwy i gynghorau oherwydd ei fod o fewn y cynnydd mewn adnoddau ar gyfer cynghorau fel rhan o'r setliad refeniw eleni. Y mae hefyd yn gynydd uwch na'r cynnydd tebygol yn Lloegr.

Lwfans Costau Personol

13. Yn yr un modd, mae'r cynnydd yn y Lwfans Costau Personol yn fforddadwy ond yn uwch na'r cynnydd mewn enillion cyfartalog arfaethedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd yn golygu bod pobl mewn gofal a gefnogir gan yr awdurdod lleol yng Nghymru mewn sefyllfa ariannol ychydig yn well na mewn mannau eraill.

14. Mae'r grym gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynyddu'r terfynau cyfalaf a'r Lwfans Costau Personol uwchben yr hyn a gynigir yn y Rheoliadau ond byddai unrhyw gynnydd ychwanegol uwchben yr hyn a gynigir ar hyn o bryd hefyd yn rhoi baich ariannol ar awdurdodau lleol a fyddai wedyn yn gorfod cael ei

ysgwyddo gan y Cynulliad o dan y weithdrefn beichiau newydd.

**Cydymffurfio**

15. Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r offerynnau hyn gael eu gwneud o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad trwy gyfrwng Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac wedi eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Gweithredu yng ngweddill Prydain Fawr**

16. Rydym ar ddeall bod yr Adran Iechyd a Gweithrediaeth yr Alban yn bwriadu cynyddu'r Lwfans Costau Personol i £17.50 o 7 Ebrill ymlaen yn unol â'r newidiadau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

17. Mae'r Adran Iechyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau o 7 Ebrill ymlaen gan gynyddu terfynau cyfalaf i £12,000 a £19,500. Penderfynodd Gweinidogion yn yr Alban beidio â chynyddu'r terfynau cyfalaf yn 2002, ond nid ydynt wedi penderfynu eto a fyddant yn eu cynyddu eleni.

**Camau i’w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

18. Ystyried y Rheoliadau

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Enw Cyswllt:** Andrew Powell-Chandler, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol 3, ffôn 029 2082 3454

**Nid yw Atodiad A ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg**

Annex A – Explanatory Memorandum

**THE NATIONAL ASSISTANCE (ASSESSMENT OF RESOURCES) (AMENDMENT) (WALES) REGULATIONS 2003; AND**

**THE NATIONAL ASSISTANCE (SUMS FOR PERSONAL REQUIREMENTS) (WALES) REGULATIONS 2003**

Preface

1. Local authorities are required to charge residents for residential accommodation, whether directly provided or arranged with an independent home, with the aim of recovering as much as possible of the costs. The assessment of a person's ability to pay for accommodation is laid down in Regulations. The response in Wales to the Royal Commission on long term care made a commitment to restore the capital limits to their 1996 real term value and to keep them under review. Limits are now reviewed annually to ensure they remain broadly in line with inflation. The intended effect of the amendment to the National Assistance (Assessment of Resources) Regulations is to increase the capital limits for means-testing in line with inflation from £11,750 and £19,000 to £12,250 and £20,000 respectively.

2. The effect of the amendment to the National Assistance (Sums for Personal Requirements) Regulations is to increase the weekly sum which local authorities are to assume that residents in residential or nursing care will need for their personal requirements, from £16.80 to £17.80.

Issue

3. This memorandum is submitted to the Assembly's Business Committee in relation to The National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and The National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2003, in accordance with Standing Order 22.

4. Copies of the instruments are submitted as annex A and B of this memorandum.

Compliance

5. The powers enabling these instruments to be made are exercisable by Ministers under the National Assistance Act 1948 and have been transferred to the Assembly by the National Assembly (Transfer of Functions) Order 1999 and delegated to the Minister for Health and Social Services. The proposed changes can be effected by Assembly regulation.

Intended effect

6. The intended effect of the Instruments are:

- **Increase in capital limits.** There are capital limits for the assessment of a person's ability to pay for residential care. Under current rules a person with capital over £19,000 is expected to meet the full costs of their residential accommodation from their own resources. For capital between £11,750 and £19,000, an income of £1 per week is assumed for each complete £250, or part of £250, held. No account is taken of capital below £11,750. If people have assets at or below £11,750, they receive full state financial support, while contributing to whatever income is deemed appropriate by the residential accommodation means-test. The response in Wales to the

Royal Commission on long term care made a commitment to restore the capital limits to their 1996 real term value and to keep them under review. Limits are reviewed annually broadly in line with inflation. The proposed changes will increase the upper and lower limits to £20,000 and £12,250 respectively.

- **Personal expenses allowance.** In calculating the means-test local authorities are required to allow residents to keep an amount of their weekly income for their personal expenses. This amount is laid down in regulations and in past years has increased annually in line with Department for Work and Pensions increases. The proposed legislation provides for the annual increase in the allowance. The proposed changes will increase the allowance from £16.80 to £17.80.

Financial implications

7. The proposed cost for the increase in the PEA is estimated at £750,000. This is an annual increase which is planned for by local authorities. It can be met by the baseline inflation allowance in the revenue settlement and the uplift in the Minimum Income Guarantee, received by most home residents, which is increased in line with earnings.

8. The increase in the capital limits will impose costs on local authorities, in the region of £600,000. However, the resources for the increase are covered in the baseline inflation allowance in the revenue settlement.

Regulatory appraisal

9. No regulatory appraisal has been completed in relation to either the National Assistance (Assessment of Resources) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 or for the National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2003. Section 65(2) of the Government of Wales Act and Standing Order 22 state that a Regulatory Appraisal need not be undertaken where the Order increases a fee by a predetermined formula. As both amendments are simply increasing existing limits/allowances and are a part of regular annual exercise, it is considered inappropriate to complete a RA in these cases. These are annual increases, which are planned for by LAs, and are covered by the annual increase included in the Local Government settlement.

Confirmation

10. I can confirm that the proposed legislation will (as far as is applicable):

- have due regard to the principle of equality of opportunity for all people (Government of Wales Act 1998 s120);
- be compatible with the Assembly's scheme for sustainable development (s121);
- be compatible with Community law (s106);

- be compatible with the Assembly's human rights legislation (s107); and
- be compatible with any international obligations binding the UK Government and the Assembly (s108).

11. This memorandum has been cleared with the Office of the Counsel General.

12. Policy Division contact: Andrew Powell-Chandler Social Care Policy 3, ext. 3454 .

Date……………………. Assembly Secretary ………………………………..

-